# EVANS, JOHN (- 1779?), clerigwr efengylaidd, cyfieithydd, ac esboniwr

**Enw:** John Evans
**Dyddiad marw:** 1779?
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr efengylaidd, cyfieithydd, ac esboniwr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Daniel Williams

Ganwyd yn y Meini Gwynion, Llanbadarn Odwyn. Aeth i Rydychen a graddiodd (1726?). Ei guradiaeth gyntaf oedd Llanarth, Sir Aberteifi; oddi yno aeth i Loegr i'w adnabod mwy fel ' ffeirad Portsmouth' ('Plymouth' i wyr Ceredigion). Cymwynasodd Gymru drwy gyfieithu llyfrau defosiynol i'r Gymraeg. Rhoddir iddo'r credyd o drosi gwaith Jabez Earle, gweinidog Long Acre, sef *Meditations on the Sacrament*, 1735; y 3ydd arg. o *Catecism y Gymanfa neu y Catecism Byrraf ... er Hyfforddi Dynion Ieuaingc* gan I. Watts, 1741; *Christian Institutes* Dr. Gastrel o dan y teitl *Y Deddfau Cristionogol sef Didwyll Air Duw...* (Caerfyrddin, 1773). Fel esboniwr blaenorodd Peter Williams. Ei brif waith ydoedd *Cyssondeb y Pedair Efengyl: Gyd ag Agoriad Byrr, a Nodau Athrawus ...* (arg. ym Mryste, 1765). Hwn ydoedd yr esboniad rheolaidd cyntaf yn y Gymraeg. Bu farw yn Portsmouth 1779.

## Awdur

**Y Parchedig Daniel Williams**, (1878 - 1968)

## Ffynonellau


*Oxford Dictionary of National Biography*

D. J. Saer, *The story of Cardiganshire adopted by the Cardiganshire Education Committee* (1912)

Benjamin Williams (Gwynionydd), *Enwogion Ceredigion* (1869)


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 78671066

Wikidata: Q6232003


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu